Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynhwysiant digidol

## Cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus

Mawrth 2023



# Mae ein hadroddiad ar Gynhwysiant digidol yng Nghymru yn nodi trosolwg o faterion sy'n berthnasol i gynhwysiant digidol yng Nghymru

**Mae 7% o oedolion yng Nghymru 'wedi'u hallgau'n ddigidol'**, sy'n golygu nad ydynt hwy'n bersonol wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis blaenorol.[1]

**Fe wnaeth ein hadroddiad amlygu'r prif resymau hyn dros allgau digido:**



- **Seilwaith** digidol ddim ar gael.
- Methu â **fforddio** bod yn ddigidol.
- Diffyg **sgiliau** digidol sylfaenol.
- **Hygyrchedd, defnyddiadwyedd ac iaith.**
- Mae rhai pobl yn **dewis** peidio â defnyddio gwasanaethau digidol.
- Mae **diogelwch** ar-lein yn gallu bod yn rhwystr.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau awgrymedig i gyrff cyhoeddus eu gofyn iddynt hwy eu hunain wrth iddynt ystyried eu hymagwedd at gynhwysiant digidol. Gobeithio y bydd y cwestiynau'n arbennig o ddefnyddiol i uwch arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt.

Goleuwyd y cwestiynau hyn gan ein gwaith ar gynhwysiant digidol yn ogystal â'n gwaith parhaus ar ymagweddau strategol at dechnoleg ddigidol mewn llywodraeth leol. Byddwn yn ystyried diweddaru'r ddogfen hon ar ôl cwblhau ein gwaith parhaus.

1 Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021-22. Diffinnir oedolion fel pobl 16 oed a throsodd.

| Materion | Cwestiynau i gyrff cyhoeddus |
| --- | --- |
| **Ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol fel her**<br>Mae cynhwysiant ac allgau digidol yn fater cymhleth, amlweddog sy'n achosi anawsterau gwirioneddol i'r rhai sy'n ei brofi. | • A yw eich sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd cynhwysiant digidol?<br>• A yw eich sefydliad yn ymrwymedig i gynhwysiant digidol?<br>• A yw uwch arweinwyr (a'r rhai sy'n craffu arnynt) yn ymwybodol o'r effaith y gall allgau digidol ei chael ar unigolion?<br>• A yw eich sefydliad wedi adnabod pa unigolion a grwpiau o bobl sydd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgau o wasanaethau digidol?<br>• A yw eich sefydliad yn ymwybodol o Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru ac yn eu defnyddio? |
| **Digideiddio gan ddiwallu anghenion y rhai sydd wedi'u hallgau ar yr un pryd**<br>7% of Welsh adults are excluded. Therefore, public bodies need a person-centred approach to digital change. This means focusing on individuals' preferences, rather than a blanket digital-by-default approach. | • A yw eich sefydliad yn taro cydbwysedd rhwng yr angen i ddigideiddio gwasanaethau ar yr un pryd â diwallu anghenion pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol?<br>• Wrth ddigideiddio gwasanaeth, a yw eich sefydliad yn deall ac yn adnabod y rhwystrau penodol a all allgau pobl neu grwpiau rhag defnyddio'r gwasanaeth hwnnw?<br>• A yw eich sefydliad wedi amcanu at ddarparu datrysiadau neu roi cymorth i grwpiau penodol a allai fod yn fwy tebygol o fod wedi'u hallgau'n ddigidol er enghraifft pobl hŷn, pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor neu bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig?<br>• Ar gyfer pob un o'ch gwasanaethau ar-lein, a oes opsiwn arall, nad yw'n ddigidol i bobl gael mynediad ato?<br>• A yw eich sefydliad yn sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gynnwys fel ystyriaeth safonol ar draws yr holl wasanaethau?<br>• Oes gennych chi ddata cywir a chyfoes i ddeall i ba raddau y mae pobl wedi'u hallgau'n ddigidol o'ch gwasanaethau?<br>• A yw'r data'n helpu i adnabod y sefyllfa o ran allgau yn ôl gwahanol wasanaethau, ardaloedd lleol neu gymunedau?<br>• Wrth ystyried y data, a oes unrhyw fylchau? Sut ydych chi'n mynd i'r afael â'r bylchau hyn?<br>• A yw eich sefydliad wedi ystyried fframwaith cenedlaethau'r dyfodol a luniwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n darparu rhai cwestiynau i'w hystyried wrth ddatblygu newidiadau i wasanaethau? |

| Materion | Cwestiynau i gyrff cyhoeddus |
|---|---|
| **Cymorth i gyrff cyhoeddus**<br>Mae cynhwysiant digidol yn bwnc pwysig i Lywodraeth Cymru gyda nifer o raglenni, trefniadau gweithio ar draws adrannau a ffrydiau ariannu. Mae cymorth ar gael i gyrff cyhoeddus. | • A yw eich sefydliad yn defnyddio cymorth gan Cymunedau Digidol Cymru? Er enghraifft:<br>- Adolygiad o'ch sefydliad i helpu i ddatblygu a chyflawni gwaith cynhwysiant digidol.<br>- Hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr allu helpu pobl yn y gymuned gyda sgiliau digidol.<br>- Rhoi offer digidol fel gliniaduron a llechi ar fenthyg i sefydliadau i helpu i ddarparu gweithgareddau digidol ar gyfer defnyddwyr.<br>- Help i wella sgiliau digidol a hyder gwirfoddolwyr presennol a chefnogi datblygiad rhaglenni gwirfoddoli digidol.<br>• Lle y bo'n berthnasol, a yw eich sefydliad yn defnyddio cymorth gan sefydliadau eraill megis y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol neu Newid (prosiect sgiliau digidol / arweinyddiaeth ddigidol y Trydydd Sector)?<br>• A yw eich sefydliad yn ceisio mynediad at yr holl gynlluniau cyllid a chymorth perthnasol sydd ar gael i helpu gyda digideiddio gwasanaethau a mynd i'r afael ag allgau digidol? |
| **Heriau yn y dyfodol**<br>Mae costau byw cynyddol yn debygol o gael effaith bellach ar y rhai sydd dan anfantais ac wedi'u hallgau'n ddigidol. Ond bydd y dyfodol hefyd yn dwyn cyfleoedd yn sgîl datblygiadau mewn technoleg ddigidol. | • Os nad yw pobl yn gallu fforddio mynediad at wasanaethau digidol, yn rhannol oherwydd yr argyfwng costau byw, sut fydd eich sefydliad yn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at yr help a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt?<br>• A oes gan eich sefydliad ddealltwriaeth sylfaenol dda am sgiliau, gwybodaeth ac anghenion digidol cymunedau a staff ar hyn o bryd?<br>• Wrth i agweddau ar dechnoleg ddigidol ddod yn fwy cymhleth a datblygu, pa gamau fydd eich sefydliad chi'n eu cymryd i sicrhau na fydd y bwlch mewn gwybodaeth a sgiliau'n mynd yn fwy i bobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol?<br>• Pa gamau mae eich sefydliad yn eu cymryd i sicrhau bod sgiliau digidol staff yn aros gyfuwch â thechnoleg sy'n datblygu?<br>• A oes gan eich sefydliad ymagwedd ragweithiol at sganio'r gorwel ar gyfer cyfleoedd a fydd yn cael eu darparu o ddatblygiadau yn y dyfodol mewn technoleg ddigidol? |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru